**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

18 Mawrth 2024

Annwyl Peredur

Yn ystod y gwaith craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2023-24 yn y Pwyllgor Cyllid ar 29 Chwefror, cytunais i ddilyn i fyny gyda rhagor o wybodaeth am ychydig o bwyntiau a godwyd yn ystod y trafodaethau.

**Y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Fel y nodir yn ein hail Gyllideb Atodol a'r datganiad blaenorol ar ailflaenoriaethu a'r atodiad ategol i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, gwnaethom nifer o ddewisiadau anodd eleni i leihau gwariant ar draws y gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w ailgyfeirio at gefnogi gwasanaethau rheng flaen.

Yn ogystal â'r dewisiadau hynny, mae'r gyllideb yn dangos mwy o incwm o drosglwyddiadau sy'n gysylltiedig â thanwariant ar gronfa Pedair Gwlad Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU.

**Costau cymhorthdal i bob teithiwr ar drenau yng Nghymru**

Bydd gwerth y cymhorthdal i bob teithiwr yng Nghymru yn amrywio yn ôl llinell neu lwybr, gweithredwr y gwasanaeth ac a yw cyllid ar gyfer seilwaith yn cael ei gymryd i ystyriaeth neu beidio. Rydym yn parhau i weithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i wneud arbedion ac i leihau'r bwlch rhwng ei hincwm a'i chostau, gan sicrhau hefyd fod gwasanaethau rheilffyrdd yn dal yn fforddiadwy i deithwyr.

Rydym wedi buddsoddi llawer mwy o arian yn y rheilffyrdd nag o dan y system flaenorol. Manteision y dull hwn yw'r buddsoddiad o £800m mewn trenau newydd sbon ar draws ardal Cymru a'r Gororau, y trawsnewidiad gwerth £1bn i Linellau Craidd y Cymoedd a gwasanaethau ychwanegol megis y gwasanaethau Glyn Ebwy i Gasnewydd a lansiwyd yn ddiweddar.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom y penderfyniad i ddiogelu gwasanaethau rheilffyrdd hanfodol drwy ddarparu £125m i Drafnidiaeth Cymru yn y gyllideb atodol. Heb y cyllid hwn ni fyddai Trafnidiaeth Cymru wedi gallu parhau i weithredu eu holl wasanaethau rheilffyrdd a byddai swyddi wedi bod mewn perygl.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government